Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Uwch-ddatblygwr Atebion - Prosiect Rheoli Cofnodion Myfyrwyr Rhaglen Ymlaen

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran:** | GGS |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch-ddatblygwr Atebion - Prosiect Rheoli Cofnodion Myfyrwyr Rhaglen Ymlaen |
| **Adran/Pwnc:** | Atebion Digidol |
| **Cyflog:** | Gradd 08: £38,205 – £44,263 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos |
| **Contract:** | Swydd dros dro yw hon tan 31 Hydref 2025 |
| **Lleoliad:** | Campws Singleton, Abertawe |

| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Fel uwch-aelod o dîm technegol, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod atebion digidol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ar draws amrywiaeth o dechnolegau a phlatfformau. Disgwylir i chi weithredu fel hyfforddwr a mentor i aelodau'r tîm a chydweithwyr. Gan weithio gyda'ch tîm, byddwch yn cynorthwyo wrth gydlynu adnoddau a sgiliau yn eich tîm ac yn cydweithredu â thimau eraill i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gyflawni gwasanaethau.<br><br>Bydd gennych rôl allweddol wrth reoli'r ôl-groniad gwaith a sicrhau bod y tîm yn gweithio gan ddilyn arferion gweithio ystwyth.<br><br>Byddwch chi'n gwerthuso eich effaith bersonol yn barhaus er mwyn gwella fel gweithiwr proffesiynol ac ysgogi perfformiad cynaliadwy.<br><br>Byddwch chi'n gweithio'n agos gydag arweinydd eich tîm ac, yn ôl yr angen, gyda phartneriaid busnes, rheolwyr prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ganfod, deall a blaenoriaethu gofynion a sicrhau bod atebion yn darparu gwerth am arian. Bydd angen i chi hefyd gydbwyso galwadau am newid busnes fel arfer, newid prosiect a galwadau sy'n dod i'r amlwg. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | Fel Uwch-ddatblygwr Atebion, byddwch yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli atebion digidol. Byddwch yn canolbwyntio ar y cwsmeriaid, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu atebion sy'n cefnogi gweithgareddau a phrosesau'r Brifysgol. Bydd disgwyl i chi ddarparu arweiniad ac arweinyddiaeth technegol i gydweithwyr a dirprwyo ar gyfer arweinydd y tîm pan fydd angen.<br><br>Yn y rôl hon, byddwch yn:<br><br>1. Defnyddio eich gwybodaeth a'ch arbenigedd i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth i ddatblygu cydweithwyr ac i wella sut caiff gwasanaethau eu darparu.<br>2. Dylunio, yn datblygu ac yn cefnogi atebion a gynhelir yn y cwmwl ac ar y safle.<br>3. Rhoi safonau arfer gorau ar waith i sicrhau ansawdd, diogelwch a pherfformiad atebion.<br>4. Dylunio ac yn cyflunio galluoedd meddalwedd, gan gydweithio â thimau mewnol, rhanddeiliaid, partïon allanol a chwsmeriaid fel y bo'n briodol.<br>5. Sicrhau bod atebion a newidiadau wedi'u dylunio'n dda, eu profi a'u rhyddhau yn unol â phrosesau profi a rheoli rhyddhau. |

| | |
|---|---|
| | 6. Sicrhau bod atebion yn cael eu darparu gan lynu wrth y prosesau sicrhau ansawdd, megis rheoli'r broses brofi, rheoli newid, rheoli'r broses ryddhau a chymorth; gweithredu'n rhagweithiol i wella'r prosesau sicrhau ansawdd yn barhaus.<br>7. Arwain ar nodi problemau technegol a'u datrys.<br>8. Sicrhau bod newidiadau mewn ffurfweddiad wedi'u dogfennu'n dda a'u deall yn llawn.<br>9. Galluogi systemau a gwasanaethau technegol i weithredu'n gyson ac yn hwylus.<br>10. Sicrhau bod prosesau ac egwyddorion ystwyth yn cael eu dilyn yn y tîm.<br>11. Ymateb i alwadau am wasanaeth fel darparwr trydedd lefel, neu yn achos digwyddiad mawr, yn gweithio ar y cyd fel tîm i ddatrys problemau.<br>12. Sicrhau bod atebion i broblemau'n cyfrannu at sylfaen wybodaeth systemau digwyddiadau.<br>13. Rhoi cymorth, cyfarwyddyd a dogfennaeth ar atebion newydd a ddatblygir.<br>14. Ceisio adborth a gweithredu arno'n barhaus i ddysgu a datblygu fel gweithiwr proffesiynol gan gymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun a gweithredu fel model rôl i gydweithwyr. Chwilio am gyfleoedd i wella pobl a phrosesau'n barhaus, a disgwylir i'r holl staff TG ddatblygu er twf personol a phroffesiynol neu i ddiwallu anghenion gweithredol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | • Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>• Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>• Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Coleg/Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | • Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu atebion a gwasanaethau proffesiynol.<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. |

| | |
|---|---|
| | • Tystiolaeth amlwg o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br><br>• Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol.<br><br>**Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau:**<br><br>• Profiad o ddatblygu atebion yn brydlon ac i'r safon ofynnol<br>• Profiad o fod yn arweinydd neu'n fentor<br>• Profiad o ddarparu arweinyddiaeth mewn amgylchedd tîm ystwyth<br>• Cynorthwyo wrth bennu arferion a thechnegau datblygu<br>• Meddylfryd dadansoddol ynghyd â hanes profedig o ddatrys problemau technegol<br>• Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall gofynion a darparu atebion technegol.<br>• Profiad o reoli prosiectau, arwain adolygiadau a'r gallu i amlygu cyfleoedd i wella a gwneud newidiadau yn ôl yr angen<br>• Y gallu i gyfathrebu ag amrywiaeth eang o gwsmeriaid gan ddefnyddio iaith briodol<br>• Y gallu i gefnogi gwelliant parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br><br>• Profiad o weithio gydag Azure DevOps neu system debyg<br>• Dealltwriaeth o fersiynau a rheoli ffynonellau<br>• Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg<br>• ITIL v3 neu Foundation v4<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a defnyddio sgiliau proffesiynol perthnasol<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd ystwyth<br><br>**Y Gymraeg:**<br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br><br>*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | **Ymholiadau anffurfiol**<br><br>Os oes gennych gwestiynau am y rôl hon, e-bostiwch Kath Holmes - k.m.holmes@abertawe.ac.uk |